Cyfeillion Amgueddfa Cymru
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

Friends of National Museum Wales
Cathays Park, Cardiff CF10 3NP

Dydd Sadwrn 16 Medi 2023
Am 10.30 am
Darlithfa Reardon Smith
Plas y Parc, Caerdydd

Frank Lloyd Wright

Sgwrs yn Saesneg gan Jonathan Adams BSc[Anrh] AADip RIBA

Ganed Frank Lloyd Wright ym 1867 yn America ac roedd ei rieni yn Gymry. Roedd ei deulu ymhlith y don gyntaf o ymfudwyr i adael Gorllewin Cymru ar ddiwedd y 1800au i ddechrau bywyd newydd yn America. Roedd gyrfa bensaernïol Lloyd Wright yn ymestyn dros saith degawd cyn ei farwolaeth ym 1959. Roedd gwaith gweledigaethol Wright yn cadarnhau ei le fel, “pensaer Americanaidd mwyaf erioed” (Sefydliad Penseiri America).

Ganed Jonathan Adams yng Nghaerllion, De Cymru a chafodd ei addysg yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru yng Nghaerdydd a’r Gymdeithas Bensaernïol, Ysgol Bensaernïaeth Llundain. Ymunodd Jonathan Adams â Phartneriaeth Percy Thomas a dechreuodd weithio ar brosiect £106 miliwn Canolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd a agorwyd ym mis Tachwedd 2004. Ef oedd Llywydd Cymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru (RSAW) rhwng 2005 a 2007. Yn 2005 dechreuodd y gwaith o ailwampio ac ad-drefnu Theatr y Sherman, Caerdydd. Ail-agorwyd yr adeilad ym mis Chwefror 2012. Ym mis Chwefror 2010 agorwyd ei adeilad pencadlys newydd ar gyfer Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC). Cyflwynodd Jonathan Adams raglen ddogfen deledu i’r BBC am Frank Lloyd Wright, a ddarlledwyd ddiwedd Awst 2017 ar BBC4 a BBC2 Wales. Yn ddiweddar, mae Jonathan wedi cyhoeddi llyfr clodwiw iawn ar Frank Lloyd Wright sef ‘*Frank Lloyd Wright*, *The Architecture of Defiance’*, a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru.

Y tâl mynediad ar gyfer y digwyddiad hwn, i gynnwys coffi a bisgedi ar ôl y ddarlith, yw £10.

Mae'r digwyddiad hwn yn agored i'r cyhoedd hefyd am £10, felly mae croeso i bawb.

Cyfeillion Amgueddfa Cymru: Sgwrs gan Jonathan Adams
Frank Lloyd Wright
Dydd Sadwrn 16 Medi 2023 yn Narlithfa Reardon Smith, Caerdydd am 10.30
Nid oes angen archebu ymlaen llaw.

A fyddech cystal â thalu ar y diwrnod ag arian neu siec yn daladwy i:-

Cyfeillion Amgueddfa Cymru *yn llawn os gwelwch yn dda*

Elusen Gofrestredig Rhif 701990
Registered Charity No. 701990